


Anrhydeddus Gymdeithas
Y Cymmrodorion

Sefydlwyd 1751



The Honourable Society
Of Cymmrodorion

Founded 1751

NODDWR/PATRON: EI UCHELDER BRENHINOL TYWYSOG CYMRU/ HRH THE PRINCE OF
WALES

Annwyl Gymmrodor

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas am 6 yr hwyr ddydd Mawrth 12 Mai yn
Medical Society of London, Chandos Street, London W1G 9EB.

Rwyf yn falch i adrodd bod y Gymdeithas yn parhau i ffynnu, a ninnau wedi cael nifer o ddarlithiau
swmpus yn ystod y flwyddyn. Bydd y rhaglen at y tymor nesaf yr un mor ddiddorol.

Yn ystod y flwyddyn ymgymerwyd â dau orchwyl pwysig. Gyntaf, cyllidwyd adroddiad gan
arbenigwyr o Brifysgol Caerdydd ar yr ystadegau a gyhoeddwyd ar gyflwr addysg yng Nghymru.
Cyhoeddir hwn cyn bo hir, a dyna fydd pwnc ein darlith yn dilyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
ym mis Mai. Yr ail orchwyl pwysig oedd ailgynllunio'r wefan. Dylai'r wefan o hyn ymlaen fod yn
fwy addysgol a diddorol i'n haelodau a byddwn yn parhau i'w datblygu i fod yn fwy perthnasol i'n
haelodaeth. Dylid ymweld â'r wefan ar www.cymmrodorion.org Carem gael eich barn arni.

Mae'r ddaau gynllun hyn wedi tynnu ar ein hadnoddau ariannol, ond un yn unig ddaeth o gyllid 2014
(bydd costau'r adroddiad ar addysg yn dod o gyllid 2015). Er hynny gwnaethpwyd rhywfaint o elw y
llynedd a fydd digon i dalu treuliau eleni. Un treul ychwanegol yn ystod 2014 oedd y cymorthdal a
rhoddwyd i ymchwilwyr y Bywgraffiadur Cymreig. Mae hwn yn gynllun enfawr a hirdymor, a'r
gobaith yw y bydd y Gymdeithas yn gweld yn dda i roi gymorthdaliadau iddo o bryd yw gilydd.

Mae sefyllfa ariannol y Gymdeithas yn parhau'n gryf fel arfer, ac mae'r Cyngor yn dal i gadw llygad
barcud ar holl wario'r Gymdeithas.

Yn olaf, mae'n fraint gen i ddiolch ar ran y Gymdeithas i Peter Jeffreys sydd wedi ymddeol fel
Ysgrifennydd Mygedol y Gymdeithas. Mae Peter yn ystod ei gyfnod hir yn y swydd wedi cyfrannu'n
enfawr i broses moderneiddio'r Gymdeithas ac i ddatblygu ei rhaglenni ardderchog. Rydym yn
croesawu Dr Lynn Williams fel olynydd Peter, ac yn dymuno'n dda iddo ysgwyddo'i ddyletswyddau
newydd.

Gobeithio y caf gyfarch cymaint ohonoch ag a all dod i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis
Mai.

Prys Morgan
Llywyd

Ebrill 2015